


**Dechrau'r daith at ddwy iaith**
Begin the bilingual journey

# DY GANLLAW I ADDYSG GYMRAEG
•
# YOUR GUIDE TO WELSH-MEDIUM EDUCATION

**Dechrau'r daith at ddwy iaith**

Gyda dros 65,000 o blant mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yng Nghymru, pam mae rhieni yn ystyried y Gymraeg yn bwysig i'w plant?

•

**Begin the bilingual journey**

With over 65,000 children in Welsh-medium or bilingual primary schools in Wales, why do parents consider the Welsh language important for their children?



# PLUEN ARALL YN EU HET

•

# ANOTHER STRING TO THEIR BOW

"...bydd yn rhoi sgìl ychwanegol
iddi ei ddefnyddio a'i fwynhau."

"...it'll give her an extra
skill to use and enjoy."
Elin — Mam Betrys / Mum to Betrys, 2

**Trwy ddewis addysg Gymraeg, byddi di'n rhoi sgil ychwanegol i dy blentyn – y gallu i gyfathrebu mewn dwy iaith, wrth siarad ac wrth ysgrifennu.**
By choosing Welsh-medium education, you'll be giving your child an additional life skill — the ability to communicate in two languages, both spoken and written.

**"...ro'n i am iddi hi gael y dewisiadau cefais i ddim."**

**"...I wanted to give her the choices that I wish I had."**
Steven
Tad Mia / Dad to Mia, 2



Mae arbenigwyr yn amcangyfrif bod dros hanner poblogaeth y byd yn siarad mwy nag un iaith[1] — rho gyfle i dy blentyn wneud hynny hefyd.

Mae dros draean o gyflogwyr yn credu bod sgiliau iaith Gymraeg yn bwysig ar gyfer eu gwasanaeth cwsmer, ac mae dros chwarter cyflogwyr yn credu y byddent yn elwa o gael mwy o sgiliau iaith Gymraeg.[2]

Experts estimate that more than half the world's population can speak more than one language[1] — give your child the opportunity to do so too.

Just over a third of employers think Welsh language skills are important for their customer service, and over a quarter of employers think they would benefit from more Welsh language skills.[2]

[1] François Grosjean (2010) **'Bilingual: Life and Reality'**, Harvard University Press.

[2] Ffigurau o **'Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector'** (Llywodraeth Cymru 2014). Roedd yr arolwg hwn yn cwmpasu 4,026 o sefydliadau yng Nghymru mewn wyth sector. Cwblhawyd y gwaith maes ym mis Medi a mis Hydref 2013. Roedd y sectorau canlynol yn rhan o'r arolwg: Gofal Plant, Gofal Cymdeithasol, Lletygarwch, Creadigol, Gwasanaethau Cyllid a Phroffesiynol, Manwerthu, Bwyd-amaeth, ac Adeiladu / Figures taken from **'Welsh Language Skills Needs in Eight Sectors'** (Welsh Government 2014). This survey covered 4,026 establishments in Wales operating in eight sectors. Fieldwork was carried out in September and October 2013. The sectors included in the survey were Childcare, Social Care, Hospitality, Creative, Finance and Professional Services, Retail, Agrifood, and Construction.



# BYW YNG NGHYMRU: DYSGU YN GYMRAEG.

•

# LIVE IN WALES: LEARN IN WELSH.

**"...bydd bod yn ddwyieithog yn rhoi mwy o gyfleoedd iddo yn y dyfodol."**

**"...being bilingual will give him more opportunities in the future."**
Amy — Mam Eli / Mum to Eli, 1



## **Gelli ddechrau siwrne dy blentyn i ddwyieithrwydd o'r cychwyn cyntaf.**
## Your child's bilingual journey can begin at a very young age.

**Cymraeg i Blant**
Mae rhaglen Cymraeg i Blant yn cynnig cefnogaeth ymarferol i ti a dy blentyn ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ogystal â chynnig cymorth a chyngor ar addysg / gofal Cymraeg, mae staff Cymraeg i Blant ar draws Cymru yn cynnig gweithgareddau hwyliog, rhad ac am ddim drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys sesiynau tylino babi, ioga babi a stori a chân.

Does dim angen bod yn siaradwr Cymraeg i gymryd rhan – mae croeso cynnes i bawb, a bydd y sesiynau hefyd yn magu dy hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda dy blentyn.

**Cymraeg for Kids**
The Cymraeg for Kids programme offers practical support for you and your child to use Welsh. As well as offering help and advice on Welsh-medium education / childcare, Cymraeg for Kids staff across Wales offer fun, free activities through the medium of Welsh, including baby massage, baby yoga and story and song sessions.

You don't need to be able to speak Welsh to attend – there's a warm welcome for everybody, and the sessions will also help build your confidence to use Welsh with your child.

## **Pluen arall yn eu het.**
Add another string to their bow.



**Cymraeg i Bawb**
"Rydym yn falch o groesawu disgyblion a rhieni o unrhyw dras, hil a chrefydd i gymryd rhan yn iaith a diwylliant ein gwlad. Dyma'r ffordd i ddatblygu cymdeithas amlddiwylliannol mewn undod a rhoi'r cyfle i bawb gymhathu'n naturiol i'r gymuned Gymraeg fyrlymus sydd yma."

**Welsh for All**
"We are proud to welcome pupils and parents of any background, race and religion to participate in the language and culture of our country. This is how we develop a unified multi-cultural society where everyone has an equal opportunity to assimilate into active Welsh-speaking communities."

**Mari Phillips**
Pennaeth Ysgol y Berllan Deg, Caerdydd / Headteacher of Ysgol y Berllan Deg, Cardiff

**"Does dim ots os nad oes gair o Gymraeg gan dy blentyn – bydd yn cael ei drochi yn yr iaith ac yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg yn fuan."**

**"It doesn't matter if your child doesn't speak a word of Welsh at the beginning – they'll be immersed in the language and will soon be fluent in both Welsh and English."**

## **Byw, Dysgu, Mwynhau.**
## Live, Learn and Enjoy Welsh.

"Wnes i ddim dechrau dysgu Cymraeg o ddifri tan o'n i'n oedolyn. O feddwl yn ôl, fedra i ddim deall sut ro'n i'n byw fy mywyd heb y Gymraeg gan fod e wedi dod yn rhan mor bwysig o bwy ydw i a beth rwy'n gwneud erbyn hyn.

Rydw i a fy ngwraig wedi magu ein plant i deimlo'n gwbl gyfforddus i ddefnyddio'r Gymraeg a Saesneg, er mwyn rhoi profiadau a chyfleoedd iddyn nhw ges i ddim tra ro'n i yn blentyn.

Wrth i fi sefydlu fy musnes, ro'n i am sicrhau ein bod ni yn cynnig ein gwasanaethau yn gyfan-gwbl ddwyieithog. Mae hynny wedi profi i fod mor werthfawr i ni fel busnes – mae'n rhywbeth sydd yn ein gwahaniaethu ni o rai o'n cystadleuwyr ac yn syml iawn mae'n ddigon posib na fyddai'r cwmni yn dal i fodoli heblaw ein bod ni wedi cynnig gwasanaeth Cymraeg o'r cychwyn cyntaf.

Dydw i ddim yn gor-ddweud wrth nodi bod y Gymraeg wedi newid fy mywyd i."

"I didn't really start learning Welsh until I was an adult. When I think back I don't know how I lived my life without it as it's become such an important part of who I am and what I do.

My wife and I have raised our children so that they feel completely comfortable using Welsh and English, giving them experiences and opportunities I missed out on as a child.

When I set up my business, I wanted to ensure that we offered a fully bilingual service. That's proved invaluable to us as a business – it's something that sets us apart from some of our competitors and quite simply the company may well not still be here today unless we'd offered Welsh services from the outset.

I'm not exaggerating when I say that the Welsh language has changed my life."

**Steve Dimmick**
Cyd-sylfaenydd / Co-founder, Doopoll



# Y Siwrne.
# The Journey.

0–2

## Cymraeg i Blant
## Cymraeg for Kids

Mae sesiynau Cymraeg i Blant yn gyfle gwych i rieni gymdeithasu a dechrau defnyddio'r Gymraeg gyda'u babi neu blentyn. Edrycha am Cymraeg i Blant ar Facebook am fanylion pellach.

•

Cymraeg for Kids sessions are a great opportunity for parents to socialise and to start using Welsh with their baby or toddler. Search for Cymraeg i Blant on Facebook to find out more.

## Cylch Ti a Fi

Gelli fynd â dy faban i Gylch Ti a Fi lle mae babanod yn gallu chwarae gyda'i gilydd, gwrando ar storïau a chanu caneuon Cymraeg. Mae dros 500 o gylchoedd mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru a chroeso mawr yno i rieni a gofalwyr Cymraeg a di-Gymraeg.

•

You can take your baby to a 'Ti a Fi' parent and toddler group where children play together, listen to Welsh stories and sing Welsh songs. There are more than 500 groups in communities across Wales and non-Welsh-speaking parents and carers are warmly welcomed.

## Cylch Meithrin

Mae Mudiad Meithrin yn trefnu cylchoedd Meithrin ar draws Cymru ar gyfer plant o ddwy oed hyd at ysgol gynradd. Mae'n oed pwysig o ran dysgu iaith ac mae plant yn cael cyfle i ddysgu trwy chwarae.

•

Mudiad Meithrin organises Cylch Meithrin nursery groups across Wales for children from two years old until they go to primary school. It's an important age when it comes to learning a language and children get the chance to learn through play in Welsh.
meithrin.cymru

2–4



3–4

## Uned Feithrin
## Nursery Unit

Mae gan rai ysgolion cynradd unedau meithrin cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar gyfer plant tair oed.

•

Some primary schools have Welsh-medium or bilingual nursery units for three-year-olds.

4–11



## Ysgol Gynradd
## Primary School

Mae addysg Gymraeg ar gael ym mhob sir yng Nghymru. Cymraeg yw prif iaith yr iard a'r dosbarth mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Bydd dy blentyn yn astudio a chymdeithasu yn Gymraeg. Os nad wyt yn siarad yr iaith, mae nifer o ysgolion yn cynnig cymorth i rieni helpu eu plant gyda'u gwaith cartref.

•

Welsh-medium education is offered in every county in Wales. Welsh is the main language of the classroom and the schoolyard in Welsh-medium primary schools. Your child will study and socialise in Welsh. If you don't speak the language some schools offer support to help with schoolwork.

11–18

## Ysgol Uwchradd
## Secondary School

Mae nifer o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn perfformio'n dda, gyda rhai ysgolion ymysg y gorau yng Nghymru. Bydd dy blentyn yn astudio'r mwyafrif o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn y ddwy iaith.

•

A number of Welsh-medium and bilingual secondary schools perform well, with some amongst the best in the country. Your child will study most subjects through the medium of Welsh or bilingually.



Cysyllta gyda dy gyngor lleol i gael gwybod ble mae'r ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn dy ardal di. Am restr o ysgolion: llyw.cymru/cymraeg

Get in touch with your local council to find out where the Welsh-medium or bilingual schools are in your area. For a list of schools: gov.wales/cymraeg



# STORI JESS • JESS' STORY

Dyma stori un teulu am eu taith nhw tuag at y ddwy iaith.

Here's the story of one family's bilingual journey.

Symudodd Oliver i Geredigion o Tameside gyda'i bartner Jen a'u merch Jess.

"Pan symudon ni i Geredigion, 'doedd yr un ohonon ni'n siarad Cymraeg ond roedd anfon ein merch i'r ysgol leol yn gam naturiol – a Chymraeg yn digwydd bod oedd y brif iaith yno. 'Dyw dysgu dwy iaith erioed wedi drysu Jess. Mae wedi dysgu'n raddol, dan ei phwysau ei hun, gan gopïo plant eraill. Mae bellach yn siarad Cymraeg yn arbennig o dda.

Oliver moved from Tameside to Ceredigion with his partner Jen and daughter Jess.

"When we moved to Ceredigion none of us spoke Welsh but it made sense for our daughter to go to the local school, where Welsh happened to be the main language. Jess never found learning two languages confusing – she just took it in her stride, picking it up gradually and copying other children. She now speaks Welsh extremely well.






**"'Dyw dysgu dwy iaith erioed wedi drysu Jess."**

**"Jess never found learning two languages confusing."**

**Mae adroddiadau ysgol Jess wedi bod yn ardderchog ar draws pob pwnc. 'Dyw dysgu Cymraeg o'r newydd ddim wedi rhwystro'i datblygiad mewn unrhyw ffordd ac mae wedi ymgartrefu'n rhwydd yn yr ysgol.**

Os yw Jess yn mynd yn ei blaen i ddysgu iaith arall, dwi'n siwr y bydd hi'n ei chael hi'n haws gan fod ganddi well ddealltwriaeth o ieithoedd a'u cystrawen.

Ry' ni wedi symud i wlad wahanol gyda iaith wahanol. Ry' ni'n dysgu am ddiwylliant Cymru trwy'n plentyn ac mae'r profiad wedi'n helpu ni i deimlo'n rhan o'r gymuned.

Mae fy mhartner Jen bellach yn dysgu Cymraeg, nid yn unig fel ei bod hi'n gallu helpu Jess ond hefyd am fod hynny'n bwysig o ran ei gyrfa hi. Mae hi'n gweithio mewn amgylchedd lle mae hi'n cael cyfle i ddefnyddio'r iaith.

Ry' ni'n dau wrth ein bodd yn clywed Jess yn siarad Cymraeg ac yn defnyddio idiomau a thafodiaith yr ardal. Mae'n rhoi pleser mawr i ni ac ry' ni'n hynod falch ohoni."





**Jess has received very good school reports across the board. It hasn't held her back in any way and she's never had difficulty settling down.**


If Jess goes on to learn another language, I'm sure she'd find it easier as she has a better understanding of languages and how they're constructed.

We've moved to a different country with a different language. We're learning more about Welsh culture through our child and it has helped make us feel part of the community.

Jen is now learning Welsh, not only so she can help our daughter, but also because it's important for her career. She works in an environment where she's able to communicate in Welsh.

We love hearing Jess speak Welsh and hearing the dialect she has. It's music to our ears and we're very proud of her."


# Felly beth nesaf?
•
# So what next?



Mae pob math o gwestiynau yn codi wrth wneud penderfyniad o bwys. Dyma ychydig o gyngor gan rai â phrofiad go iawn.

•


Any big decision prompts questions. Here is some advice from those with real experience.



**Dyw 'Nghymraeg i ddim yn dda iawn. A fydda i'n gallu cefnogi fy mhlentyn gyda'i waith ysgol?**

•

**I can't speak Welsh. Will I be able to support my child at school?**



"Un peth sy'n poeni nifer o rieni yw bo' ni ddim yn mynd i allu helpu'n plant gyda'u gwaith cartref. Ond gyda chefnogaeth yr ysgol, y Mudiad Meithrin a nifer o wefannau gwahanol, 'dyw hyn ddim wedi bod yn broblem."


"I think a common concern is that we, as parents, will be unable to help our children with their homework, but with the support of the school, Mudiad Meithrin and lots of different websites this has not been a problem."

**Louise**
Mam, Blaenau Gwent /
Mother, Blaenau Gwent

**Sut fydd fy mhlentyn i yn ymdopi os nad ydyn ni'n siarad Cymraeg adref?**

•

**How will my child manage if we don't speak Welsh at home?**



"Saesneg yw'r iaith sy'n cael ei siarad yn ein cartref ni ond mae'n wych i glywed ein merched yn troi mor naturiol i siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau. Mae gymaint o gyfleoedd iddyn nhw ddefnyddio'u Cymraeg o fewn a thu allan i'r ysgol – dydw i wir ddim yn credu bod hyn wedi bod yn broblem i ni."


"English is the language we use in our home, but it's fantastic to hear our girls turn so naturally to speak Welsh with their friends. There are so many opportunities for them to use their Welsh both in and outside of school that I really don't feel it's been a problem for us."

**Seb**
Tad, Caerdydd /
Father, Cardiff

**Mae fy mhlentyn yn mynd i ysgol Saesneg ar hyn o bryd. A yw'n rhy hwyr i drosglwyddo i addysg Gymraeg?**

•

**My child currently goes to an English-medium school. Is it too late to change to Welsh-medium education?**



"Mae pob ysgol Gymraeg neu ddwyieithog yn croesawu siaradwyr di-Gymraeg. Mewn rhai ardaloedd bydd dy blentyn yn treulio amser mewn canolfan drochi iaith. Yma, cânt addysg ieithyddol ddwys nes y byddant yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg cyn trosglwyddo i ysgol Gymraeg."


"All Welsh-medium and bilingual schools welcome non-Welsh speakers. In some areas your child could be taught in a language immersion unit. Here, they'll receive focused linguistic education until they are able to speak, read and write in Welsh and transfer to the Welsh school."

**Aled Jones**
Pennaeth canolfan iaith, Caerdydd /
Head of language unit, Cardiff

**Sut mae cyrraedd ein hysgol leol?**

•

**How can my child get to our local school?**




Paid â phoeni os nad yw dy ysgol leol o fewn pellter cerdded. Cysyllta gyda dy gyngor lleol i gael gwybod mwy am y gefnogaeth sydd ar gael i helpu i gludo dy blentyn i'r ysgol.

Don't worry if your school is not within walking distance. Contact your local council for details of the support available to help transport your child to school.

**Beth yw'r ffordd orau o ddysgu'r iaith neu wella fy Nghymraeg?**

•

**How do I start learning Welsh as an adult?**



"Mae llwyth o gyrsiau ar gael. Nes i ddysgu'r iaith trwy Cymraeg i Oedolion felly allai ddweud yn bendant bod hwnnw'n fformat da."

"There are loads of courses available. I learnt through Welsh for Adults so I can guarantee that's a good format."

**Lynne Madden**
Arweinydd Cylch Meithrin / Cylch Meithrin Leader

Chwilio am gwrs?
Looking for a course near you?
llyw.cymru/cymraeg

## **Cefnogaeth Bellach.**
## Further Support.

Beth am ddechrau gwneud pethau bychain nawr i helpu dy blentyn i ddysgu yn Gymraeg? Mae yna wefannau ac apiau ar gael i ti.

Why not start doing the little things today to help your child learn in Welsh? There are websites and apps out there to help you.

Y man cychwyn ar gyfer gwybodaeth a chyngor am addysg Gymraeg, yn ogystal â sut i Fyw, Dysgu a Mwynhau yn Gymraeg.
llyw.cymru/cymraeg

This should be your first stop for information and advice about Welsh-medium education, as well as how you can Live, Learn and Enjoy in Welsh.
gov.wales/cymraeg

I Blant
For Kids

Mae Cymraeg i Blant yn cynnig pob math o weithgareddau hwyliog i blant a'u teuluoedd, gan gynnwys sesiynau tylino babi, ioga babi, stori a chân, sesiynau magu hyder yn y Gymraeg a llawer mwy.

Cymraeg for Kids offers a wide range of fun activities for children and their families, including baby massage sessions, baby yoga, story and song sessions, story and rhyme time sessions, sessions to build confidence in using Welsh with your child and much more.
Cymraeg i Blant

Mae Mudiad Meithrin yn trefnu Cylchoedd Ti a Fi ar gyfer babanod a Chylchoedd Meithrin ar gyfer plant o ddwy oed hyd at ysgol gynradd ar draws Cymru.

Mudiad Meithrin organises 'Ti a Fi' parent and toddlers group and offers nursery groups for children from two years old until primary schools across Wales.
meithrin.cymru

Mae ymgyrch Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref yn cynnig amrywiaeth o adnoddau ardderchog a llawer o awgrymiadau syml a chyngor i rieni a gofalwyr.
dechraucartref

Education Begins at Home offers a range of excellent resources and lots of simple tips and advice for parents and carers.
beginsathome

Digon o gemau a rhaglenni i ddiddanu plant ifanc yn Gymraeg gan S4C — ar gael fel gwefan symudol, ap neu ar BBC iPlayer.

Plenty of games and programmes in Welsh for pre-school children by S4C — available as a mobile site, app or on BBC iPlayer.
s4c.cymru/cyw

Urdd

Os oes gen ti blant hŷn mae ap yr Urdd yn cynnig digon o syniadau o weithgareddau sydd ar gael yn dy ardal di yn Gymraeg.

If you have older children the Urdd's app offers plenty of ideas for activities in Welsh in your area.
urdd.cymru

## **Fy ardal i.**
My area.

## Nodiadau.
Notes.

## Defnyddia rhain gyda dy blentyn.
Try these with your child.

### Dyddiau'r wythnos
Days of the week

Monday – Dydd Llun
Tuesday – Dydd Mawrth
Wednesday – Dydd Mercher
Thursday – Dydd Iau
Friday – Dydd Gwener
Saturday – Dydd Sadwrn
Sunday – Dydd Sul

### Anifeiliaid
Animals

Dog – Ci
Cat – Cath
Horse – Ceffyl
Pig – Mochyn
Sheep – Dafad

### Geiriau a brawddegau defnyddiol
Useful words and phrases

School – Ysgol
Welcome – Croeso
Good Morning – Bore Da
Good Afternoon – Prynhawn Da
Good Night – Nos Da
Hello – Helo
Goodbye – Hwyl fawr
How are you? – Sut wyt ti? (North)
Shw'mae? (South)
Good – Da
Very good – Da iawn
Thank you – Diolch
Please – Os gwelwch yn dda
What's the time? – Faint o'r gloch yw hi?
O'clock – O'r gloch
(e.g. one o'clock = un o'r gloch)
Happy Birthday – Penblwydd Hapus

### Tywydd
Weather

It's sunny – Mae'n heulog
It's raining – Mae'n bwrw glaw
It's windy – Mae'n wyntog
It's snowing – Mae'n bwrw eira
It's fine – Mae'n braf
It's hot – Mae'n boeth
It's cold – Mae'n oer

### Lliwiau
Colours

Red – Coch
Orange – Oren
Yellow – Melyn
Green – Gwyrdd
Blue – Glas
Black – Du
White – Gwyn
Pink – Pinc

### Rhifau
Numbers

**1** Un
**2** Dau
**3** Tri
**4** Pedwar
**5** Pump
**6** Chwech
**7** Saith
**8** Wyth
**9** Naw
**10** Deg

## Sut wyt ti'n dweud...?
How do you say...?



### Cytseiniaid
Consonants

**c** as in car
**ch** as in Bach, Loch
**dd** as in the
**f** as in vase
**ff** as in daffodil
**g** as in garden
**ng** as in gang, Kung Fu
**ll** to produce this sound, place tip of tongue against your upper palate and breathe out!
**ph** as in photograph
**r** as in row
**rh** sound the Welsh 'r' and breathe out!
**th** as in think

### Llafariaid
Vowels




**a** as in car
**e** as in there
**i** as in tree
**o** as in pot
**u** as in been
**w** as in zoo
**y** can either be sound in pub or tin

WG31324 OGL
©Hawlfraint y Goron 2017, Llywodraeth Cymru / ©Crown copyright 2017, Welsh Government
Print ISBN: 978-1-4734-7535-9 Digidol / Digital ISBN: 978-1-4734-7534-2



llyw.cymru/cymraeg
Cymraeg i Blant

CYMRAEG

Llywodraeth Cymru
Welsh Government